Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Date / Dyddiad: 6th Ebrill 2022

Subject / Pwnc: Ymchwiliad Covid-19 UK: Cylch Gorchwyl

Background information about the Children's Commissioner for Wales

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu holl feysydd pwerau datganoledig Senedd Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw CCUHP sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sylfaen ar gyfer yr holl bolisïau sy'n cael eu llunio ar gyfer plant a phobl ifanc, ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Are you submitting feedback as an individual or on behalf of an organisation?**
(Required) deselected ra ○ Individual ◉ Organisation

**Organisation name:** Comisiynydd Plant Cymru

**Do the Inquiry's draft Terms of Reference cover all the areas that you think should be covered by the Inquiry?**

deselected ra ○ Yes ◉ No

**Gofynnir i chi esbonio pam rydych chi'n meddwl nad yw'r Cylch Gorchwyl drafft yn cwmpasu'r holl feysydd y dylai'r Ymchwiliad roi sylw iddynt.**

Nid yw plant yn cael eu cynnwys fel grŵp ar wahân i'w hystyried o dan y Cylch Gorchwyl drafft, er fy mod yn nodi'r ffocws penodol ar addysg. Er nad oes grwpiau penodol wedi'u rhestru neu eu henwi yn y Cylch Gorchwyl, mae'n bwysig nodi sut bydd profiadau plant wedi bod yn wahanol i rai oedolion, o ran sut cawson nhw wybodaeth am beth oedd yn digwydd, sut cawson nhw eu cefnogi, a sut cafodd eu hawliau plant penodol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) eu diogelu a'u cynnal.

Nid yw'r adran ar addysg yn sôn yn benodol am leoliadau addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar. Hoffwn i weld hyn yn cael ei gynnwys, gan y bydd yr effaith ar ddatblygiad plant yn ffactor allweddol ar gyfer cyfleoedd bywyd i'r dyfodol ac yn agwedd bwysig ar y gwersi a ddysgwyd.

Dylai'r adran gwersi a ddysgwyd sicrhau bod profiadau unigryw plant yn destun ffocws a sylw, ar wahân i rai oedolion. Dylai fod pwynt penodol yn y gwersi a ddysgwyd ynghylch cyflwyno addysg pan fydd pandemig yn y dyfodol. Dylai fod pwynt penodol hefyd ynghylch diogelu hawliau plant mewn pandemig i'r dyfodol, neu ddull cyffredinol o ddiogelu hawliau dynol sy'n cwmpasu pob oed.

Sylwyd yn gyffredinol bod y mesurau cyfyngol yn cael effaith benodol ar gymunedau lleiafrifol neu fwy agored i niwed, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig lleiafrifol arall, pobl hŷn, pobl anabl a phlant. Mae hyn yn cynnwys anghydraddoldebau iechyd, ond hefyd gau cefnogaeth a gwasanaethau, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol. Nodwyd yr effaith ar bob plentyn, ac ar grwpiau penodol o blant, yn glir eisoes trwy dystiolaeth ymchwil, ac o ganlyniad, mae angen sicrhau ffocws penodol ar hyn yn yr Ymchwiliad.

Er bod y Cylch Gorchwyl yn cyfeirio'n fras at sut cafodd penderfyniadau eu "gwneud, eu cyfathrebu a'u gweithredu", hoffwn weld ffocws penodol ar yr hawl i dderbyn gwybodaeth addas, hygyrch. Roedd diffyg ffynonellau gwybodaeth hygyrch i blant a phobl ifanc yn golygu bod plant yn cario baich trwm o bryder ynghylch effaith y feirws, ac mewn rhai achosion yr ydyn ni'n ymwybodol ohonynt, nid oedd plant yn ymwybodol o fanylion cyfyngiadau'r cyfnod clo, ac o ganlyniad roedd yr Heddlu'n mynd ar eu hôl ac yn eu beirniadu neu eu cosbi am eu hymddygiad. Ar ben hynny, mae gwybodaeth sydd ar gael yn eu dewis iaith yn hawl ddynol allweddol i bawb, gan gynnwys plant. Mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol penodol sy'n ei rhoi ar lefel gyfartal â'r Saesneg yma yng Nghymru, felly hoffwn weld hawliau a mynediad at iaith yn cael eu hadlewyrchu yn y Cylch Gorchwyl. Wrth gwrs bydd hynny'n berthnasol i ieithoedd eraill hefyd, yn arbennig yng nghyswllt negeseuon craidd iechyd cyhoeddus a chyfreithiol.

Mae'n briodol bod ffocws ar gartrefi gofal yn y Cylch Gorchwyl, ond mae'n bwysig gwahanu'r mathau gwahanol o ddarpariaeth, fel bod cartrefi plant yn cael eu hystyried yn benodol. Fe gawson ni waith achosion ar hyd y cyfnodau clo a chyfnodau cyfyngedig lle roedd cartrefi plant bach oedd yn darparu gofal preswyl i blant a phobl ifanc iach, actif, yn cael eu trin yn yr un ffordd â darparwyr mawr gofal nyrsio arbenigol ac i'r henoed, er bod eu proffiliau risg yn wahanol. Byddem ni'n croesawu petai modd i'r adran gwersi a ddysgwyd ystyried yn fanylach y diffiniadau a gafodd eu defnyddio yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Ar ben hynny, gallai dyletswyddau ehangach timau gofal cymdeithasol, yn arbennig mewn perthynas â chefnogi plant, er enghraifft gyda chyswllt teulu neu symud ymlaen gydag asesiadau maethu neu fabwysiadu, fynd ar goll. Rydyn ni'n ymwybodol o'r dull a ddefnyddiwyd yn Lloegr ac mewn gwledydd eraill i ddileu mesurau diogelu i blant yng ngofal yr awdurdod lleol neu sy'n derbyn gwasanaethau cefnogi arbenigol, dull a wrthwynebwyd yma yng Nghymru. Dylai'r gwersi a ddysgwyd gwmpasu'r dulliau gweithredu gwahanol hyn yn ogystal.

Ar ben hynny, lle cyfeirir at y system gyfiawnder, mae angen rhoi sylw penodol i'r rhai mewn lleoliadau cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys lle cyfyngir ar eu rhyddid. Rwy'n ymwybodol, ers y cyfnod clo cyntaf, o'r trefniadau cyfyngol llym a roddwyd ar waith mewn lleoliadau gwarchodol, gan gynnwys rhai oedd yn lletya plant a phobl ifanc, megis 23 awr yn eu celloedd eu hunain. Er i'r mesurau hynny gael eu cyflwyno fel mecanwaith iechyd cyhoeddus, gwnaed newidiadau i'r 'trefniadau' hynny yn fuan yma yng Nghymru, felly roedd yn bosibl gwneud pethau mewn ffordd wahanol. Hoffwn i brofiadau plant o hyn dderbyn sylw arbennig, gan ystyried eto angenrheidrwydd y mesurau hyn ar sail proffil risg y lleoliadau a phlant a phobl ifanc yn gyffredinol.

Mae'n aneglur o'r Cylch Gorchwyl sut byddai dulliau o ymdrin â diogelu ac amddiffyn plant yn cael eu cynnwys ac yn derbyn sylw gan yr ymchwiliad. Mae hon yn agwedd bwysig ar gyfer cynhwysiad, gan fod rhaid i hyn fod yn ddiben craidd i bob Llywodraeth wrth gyflawni eu swyddogaethau.

**Pa faterion neu bynciau rydych chi'n tybio dylai'r Ymchwiliad edrych arnyn nhw gyntaf?**

Dwy ddim yn ffafrio unrhyw drefn benodol ar gyfer dull gweithredu'r Ymchwiliad.

**Do you think the Inquiry should set a planned end-date for its public hearings, so as to help ensure timely findings and recommendations?**

deselected ra ◉ Yes ○ No

Ydw, rwy'n credu ei fod yn bwysig i'r Ymchwiliad bennu dyddiad terfynol arfaethedig er mwyn sicrhau disgwyliadau clir o safbwynt y cyhoedd ynghylch adroddiadau, a phwy fydd yn cael eu cynnwys yn y sesiynau tystiolaeth.

**Sut dylai'r ymchwiliad gael ei ddylunio a'i gynnal i sicrhau bod lleisiau pobl sydd wedi dioddef profedigaeth neu niwed neu galedi difrifol o ganlyniad i'r pandemig yn cael eu clywed?**

Ar hyn o bryd, mae'r disgrifiad o'r "rhai sydd wedi dioddef niwed neu galedi difrifol" yn ymddangos braidd yn niwlog.  Byddai fy nehongliad personol i o hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc, oedd yn methu mynd i leoliadau addysg, cael mynediad i wasanaethau cefnogi a chyfleusterau cymunedol, cwrdd â ffrindiau a chymdeithasu, parhau â'u cyfnodau datblygiad normal fel plant a chael mynediad i ofal meddygol yn brydlon ar gyfer cyflyrau plentyndod. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg ar unwaith y byddant yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad hwn, na sut bydd hynny'n digwydd.

Unwaith caiff galwad am dystiolaeth ei lansio, byddaf finnau'n darparu'r adroddiadau a'r gwaith mae fy swyddfa wedi ymgymryd â nhw yn y cyfnod i'r Ymchwiliad, gan adlewyrchu barn a phrofiadau plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ni ddylid gweld hynny fel rhywbeth sy'n disodli clywed lleisiau plant a phobl ifanc yng Nghymru. O ganlyniad, hoffwn annog yr Ymchwiliad i gasglu barn plant a phobl ifanc yn uniongyrchol. Byddwn i'n disgwyl i blant a phobl ifanc o Gymru gael cyfle i roi tystiolaeth yn Gymraeg neu Saesneg, gyda chyfleusterau cyfieithu addas yn cael eu darparu yn ôl y galw, a gwybodaeth hygyrch ynghylch sut gallan nhw gyfranogi a sut bydd eu barn yn cael ei hymgorffori.

Byddwn i'n rhagweld y gallai swyddfeydd Comisiynwyr Plant pob un o'r gwledydd, gan gynnwys fy un fy hun, roi cefnogaeth i adnabod grwpiau a chynghori ar fethodoleg ac ymarfer. Yn benodol, byddai fy swyddfa'n falch o roi cyngor ar wrando ar blant iau a'r rhai sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol. Byddwn i'n disgwyl i blant a phobl ifanc o holl genhedloedd y Deyrnas Unedig ymwneud â hyn, gan y bydd plant wedi cael profiadau gwahanol ar draws y Deyrnas Unedig.

Cyflwynwyd gan:



Yr Athro Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru